Cyngor Cymuned Llanfihangel y Pennant a gynhaliwyd yn Y Ganolfan Abergynolwyn, Nos Lun 9fed Gorffennaf 2018

Presennol:Gadeirydd Elwyn Evans, Is Gadeirydd Steve Lewis, H.E. Thompson, Gareth Evans, Robert Jones, Wendy Whitby, Cynghorydd Gwynedd Beth Lawton a'r clerc Eileen Jones.
Ymddiheuriad: Dylan Jarman, (Silage) Eleri Puw (plant)
Datgan Diddordeb: Cyng Elwyn Evans rhif 10. Llenwodd Hysbysiad o Fuddiant Personol
Croeshawyd pawb gan y Cadeirydd. A chroeso i Hannah Jane, Uwch Swyddog Strategol a ddaeth i drafod ei enwebiad Safle Trefdadaeth y Byd Llechi Cymru.
Nododd bod cynllun Cyngor Gwynedd 2018 – 2023 a'r pwrpas i greu buddion economaidd a chymdeithasoli gymunedau a busnesau Gwynedd. Yn ein ardal ni mae Chwarel Bryn Eglwys, Pentref Abergynolwyn a Rheilffordd Talyllyn Llechi Cymru yw'r unig safle ar rhestr y DU o Gymru. Diolchwyd i Hannah am ei adroddiad a dymunwyd yn dda i'r Cynllun.

1. Derbyniwyd cofnodion Mehefin a llofnodwyd gan y Cadeirydd Elwyn Evans
2. Cae Chwarae: Popeth yn iawn. Pasiwyd i dalu Sean's Lawns am mis Mehefin, ROSPA.
3. Mynwentydd: Pasiwyd i dalu Sean's Lawns. Un pris a ddaeth i law ynglyn a'r ddau bwlch yn y wal. Pasiwyd yw dderbyn. Trafodwyd dymuniad Ellen Cockburn i dalu ymlaen llaw am man claddu. Er ein bod yn cydymdeimlo ei bod eisiau bod yn ymyl y teulu, mi oedd ganddom polisi i werthu man claddu pan oedd ei angen.
4. Llwybrau: Nodwyd bod Gamdda bont Rhiwlas am Penmeini a polyn wedi pydru.
5. Cyng. Gwynedd: Beth Lawton:Pwyllgor Safonau yn gaddo dod i roi cwrs Côd Ymddygiad. Bu Beth a'r Clerc yn dathlu penblwydd yr NHS yn 70deg yn Ysbyty Tywyn. Bydd Ysbyty Tywyn yn dathlu 100 mlynedd mewn dwy flynedd. Nodwyd y byddai y Llywodraeth Cymraeg yn dysgu meddygon ym Man gor gan obeithio y byddent yn aros yno. Nodwyd bod Cwmni Ynni yn galw cyfarfod i drafod lle y gallant osod yr adeilad. Diolch i'r Cyng. Lawton
6. Rheoli Data: Trafodwyd aros am arweiniad.
7. Derbyniwyd copi agenda Archwiliad Adolygu Cynllun Datblygu Lleol Eryri
8. Mrs Jill Baxter: derbyniwyd ebost yn datgan ei phryder am culni mynedfa cyfagos. Trafodwyd a diolchwyd iddi amdano.
9. Biosffer Dyfi Unesco: Derbyniwyd gwahoddiad i ymuno. Trafodwyd a phasiwyd yw adael ar y bwrdd.
10. Apêl am arian: Derbyniwyd apêl am arian. Trafodwyd a phasiwyd i gefnogi. Derbyniwyd diolch gan Dail Dysynni.
11. Rhaid datgan taliadau i Gynghorwyr pob blwyddyn cyn 30ain Medi, i Llywodraeth Cymru ac ar y bwrdd hysbys.
12. Archwiliad Mewnol: Yr oedd wedi ei gwbwlhau gan Cyngor Gwynedd, drwy fynd a'r llyfrau i Ddolgellau cyn eu trosglwyddo i Gaernarfon ac yna yn ol i Ddolgellau. Rhaid dweud ei fod wedi gweithio yn dda a derbyniwyd adroddiad ganddynt.
13. Rheolau Sefydlog 2018 a Rheoliadau Ariannol – Pasiwyd yw derbyn ond bydd eisiau mynd trwyddynt fel y gallom ei newid i fod yn addas i'n Cyngor ni.
14. Costau Teithio: Pasiwyd i dalu costau i'n Cadeirydd am fynd i Llandrindod.
15. Derbyniwyd Mapiau Llanfihangel y Pennant – un i bob Cynghorwr a'r Clerc a phasiwyd i dalu amdanynt.
16. Taflen Ariannol i 30/06/18 : Derbyniodd pob Cynghorwr gopi.
17. Neuadd Pendre. Drwy lythyr derbyniwyd gwybodaeth yn dathlu 100 mlwyddiant diwedd y Rhyfel 1af ar 10fed Tachwedd, ticedi £10 yr un.
18. Diolch: Derbyniwyd gair o ddiolch gan Eglwys yr Aber a Aelodau Bronygader.
19. Taliadau:

Sean's Lawns	Cae a Llan	£252.00	siec 941
ROSPA	Archwiliad Cae	84.00	942
Eisteddfod Aber	Rhodd	150.00	943
Cyng Elwyn Evans	Teithio	56.70	944
Sion Gwilym	Mapiau	44.40	945

Cartref Mari Jones:
Balans Cyfrif Cyfredol £1003.27

Cyfarfod Nesaf: Nos Lun 10fed Medi 2018 am 7 o'r gloch